Pecyn ymgeisydd

# Cyfarwyddwr

Ebrill 2024

# Neges gan y Cadeirydd

Rydym wrth ein bodd ac yn gyffrous i fod yn chwilio am Gyfarwyddwr newydd i fynd â Cynnal Cymru i'r lefel nesaf.

Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd twf cyflym yn nifer y staff ac yn ein cyrhaeddiad. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i ddarparu ein gwasanaethau unigryw, ac wedi gwneud yn rhyfeddol o dda. Ond nawr yw'r amser i adlewyrchu ac atgyfnerthu ein llwyddiant – cyn i ni gamu ymlaen i gynyddu ein heffaith ymhellach ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

Allech chi fod y person i fwrw ymlaen â'r agenda uchelgeisiol hon fel ein Cyfarwyddwr newydd?



# Disgrifiad Swydd:  Cyfarwyddwr

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Cyfarwyddwr |
| **Cyflog:** | £55,000 - £60,000 yn seiliedig ar brofiad, pro rata |
| **Hyd:** | Parhaol |
| **Oriau:** | 30 neu 37.5 awr yr wythnos (4 neu 5 diwrnod) |
| **Dyddiad cychwyn:** | Cyn gynted â phosibl |
| **Lleoliad:** | Gweithio'n hyblyg/gweithio yn y swyddfa yng Nghaerdydd/gweithio gartref |
| **Rheolwr Llinell:** | Cadeirydd Bwrdd Cynnal Cymru |

| | |
|---|---|
| **Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw:** | Hanner dydd, 3 Mai 2024 |
| **Dyddiad y cyfweliad:** | 17 Mai 2024 |
| **Lleoliad:** | Wyneb yn wyneb, Caerdydd |

# Gair am Cynnal Cymru

Cynnal Cymru yw'r prif sefydliad datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Gyda nodau elusennol yn greiddiol i ni, rydym yn darparu cyngor, hyfforddiant a chysylltiadau i helpu mudiadau i wneud penderfyniadau mentrus ar gyfer dyfodol tecach a mwy diogel.

# Ein Cenhadaeth

Credwn y gall pob sefydliad gymryd camau i ymateb i heriau byd-eang mewn ffyrdd sydd o fudd iddynt hwy, a'r bobl o'u cwmpas.

P'un ai a yw'n golygu talu'r Cyflog Byw gwirioneddol fel bod gweithwyr yn gallu byw ac nid bodoli'n unig, neu newid arferion busnes er mwyn lleihau niwed amgylcheddol, neu ymgysylltu â gweithwyr, cadwyni cyflenwi a chwsmeriaid i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr – credwn fod codi uchelgais o fudd i sefydliadau yng Nghymru a thu hwnt nawr ac ar gyfer y dyfodol.

# Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw byd â hinsawdd sefydlog, cymdeithas sy'n parchu ac yn gwarchod adnoddau cyfyngedig y blaned, a bod pob unigolyn yn cael ei barchu, ei werthfawrogi ac yn gallu diwallu ei anghenion.

# Pwy ydym ni

‘Rydym yn arbenigwyr cynaliadwyedd sy’n helpu sefydliadau i greu dyfodol tecach a mwy diogel. Ers 2002, ‘rydym wedi bod yn rhan o daith Cymru i ddod â meddwl byr-dymor i ben, a bod yn flaenllaw ym myd datblygu cynaliadwy.

Mae ein tîm bychan yn cyflenwi gwaith pellgyrhaeddol, sy’n cyffwrdd â llawer agenda, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio, teithio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, tai fforddiadwy, yr Economi Sylfaenol, tlodi mewn gwaith, rheoli adnoddau naturiol a llawer mwy.

Dros y blynyddoedd, ‘rydym wedi gweithio gyda phobl a sefydliadau gwych ac, ar hyn o bryd, mae ein rolau a’n meysydd arbenigedd yn cynnwys y canlynol:

- Y Cyflog Byw Gwirioneddol – achredu a chefnogi
- Sefydliad Hyfforddiant Llythrennedd Carbon yn cyflenwi hyfforddiant Llythrennedd Carbon i fudiadau
- Hyfforddiant eco-llythrennedd
- Strategaethau a chefnogaeth Rheoli’r Amgylchedd a Datgarboneiddio
- Creu ac hyrwyddo cymunedau ymarfer – gan gynnwys ym meysydd Datgarboneiddio Tai a’r Economi Sylfaenol yng Nghymru.

**Mae pob prosiect ‘rydym yn ymwneud ag ef yn helpu ni i dyfu a deall mwy fyth am gynaliadwyedd – ac am bobl. ‘Rydym yn dwli ar ein gwaith.**

# Recriwtio Cyfarwyddwr

Rydym yn chwilio am rywun a all ein helpu i gryfhau ein sgiliau a’n harbenigedd ac i’n harwain drwy gyfnod o gydgrynhoi a newid wrth i ni barhau i gyflawni ein hagenda uchelgeisiol o alluogi gweithredu tuag at gymdeithas deg a chyfiawn, economi carbon isel ac amgylchedd naturiol ffyniannus.

Efallai eich bod yn Brif Swyddog Gweithredol profiadol neu’n uwch reolwr profiadol sy’n awyddus i gamu ymlaen yn eich gyrfa. Bydd ein Cyfarwyddwr newydd yn fedrus ym maes rheoli pobl a sefydliadau, gyda chraffter ariannol a busnes da iawn.

Rydym yn elusen fywiog a blaengar ac rydym mewn cyfnod pwysig yn ein datblygiad ar hyn o bryd. Os yw ein cenhadaeth yn taro tant a’ch bod chi’n rhannu’r un nodau â ni, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

# Pwrpas y Swydd

Bydd y Cyfarwyddwr yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o fwrw ymlaen â'r agenda cynaliadwyedd yng Nghymru, gan fod yn gyfrifol am y gwaith o arwain a rheoli Cynnal Cymru a'i gyfeiriad masnachol yn llwyddiannus.

Byddwch chi'n:

- arwain datblygiad sefydliadol Cynnal Cymru a rheoli newid wrth iddo ddechrau cyfnod o gydgrynhoi ar gyfer y tîm estynedig;
- gweithredu fel pennaeth y sefydliad proffesiynol a gweinyddol, a rhoi arweiniad a chyfeiriad clir i staff a gwaith Cynnal Cymru gan sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei integreiddio a'i gydlynu ar draws y sefydliad cyfan;
- ysbrydoli ac arwain pobl a rheolwyr Cynnal Cymru, gan sicrhau diwylliant o ddysgu, cynhwysiant a chefnogaeth barhaus;
- sicrhau bod cynaliadwyedd ariannol y mudiad yn cael ei optimeiddio; nodi a sbarduno gweithgareddau cynhyrchu incwm i gynnal a datblygu dyfodol y mudiad;
- bod yn weladwy iawn i'n sefydliadau partner, ein haelodau a'n cleientiaid yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros feithrin a chryfhau cysylltiadau allweddol â nhw;
- cynyddu ein cysylltiadau presennol a datblygu rhai newydd gyda'r bwriad o ehangu gweithrediadau masnachol Cynnal Cymru, canfod cyfleoedd newydd, a chyfuno ffrydiau gwaith presennol;
- rhoi cyngor i'r Ymddiriedolwyr ar gyfeiriad strategol y sefydliad a sicrhau bod penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu gweithredu;
- sicrhau bod gweithgareddau Cynnal Cymru yn cael eu cyflawni yn unol â'i gyfansoddiad ac wrth fynd ar drywydd ei amcanion a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt;
- datblygu a rheoli'r berthynas rhwng Cynnal Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru o fewn ei Strwythur Grŵp;
- cyflawni yn unol â fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

## Arweinyddiaeth

- Gweithio gyda'r Bwrdd ac uwch aelodau staff eraill fel sy'n briodol i ddatblygu gweledigaeth a chynllun strategol i arwain y sefydliad dros y ddwy flynedd nesaf yn ystod cyfnod o gydgrynhoi, lle bydd newid posibl a llawer o gyfleoedd;
- meithrin diwylliant sefydliadol sy'n hyrwyddo arloesedd, cynhwysiant, atebion creadigol a chrebwyll busnes fel y norm, gan fynd ati i hyrwyddo enw da Cynnal Cymru fel eiriolwr ysgogol ac asiant darparu ar gyfer datblygu cynaliadwy;
- meithrin perthynas dda â Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan barhau i gefnogi deddfwriaeth cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru;
- cynnal a chynyddu refeniw Cynnal Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ehangu portffolio gweithgareddau'r sefydliad a pharhau â'i gyfeiriad masnachol sefydledig, yn ogystal â chwilio am ffynonellau refeniw priodol eraill;
- meithrin gwaith tîm effeithiol gyda'r Bwrdd, staff Cynnal Cymru a Phrif Weithredwr CGGC;
- meithrin amgylchedd cynhwysol a chefnogol i bawb, gan ddatblygu tîm ac ethos Cynnal Cymru;
- cofleidio gwerthoedd craidd Cynnal Cymru a gweithredu fel esiampl ragorol i eraill ar draws y sefydliad.

## Cynllunio a Rheoli Gweithredol

- Goruchwylio gweithrediad effeithlon ac effeithiol Cynnal Cymru o ddydd i ddydd, a sicrhau bod gwaith y sefydliad ac aelodau'r tîm yn cael ei wneud yn unol ag egwyddorion rheoli perfformiad cadarn, a bod cynnydd yn cael ei gynnal yn rheolaidd ac yr adroddir arno;
- goruchwylio'r gwaith o gynllunio, gweithredu a gwerthuso rhaglenni a gwasanaethau'r sefydliad, gan sicrhau bod y rhain yn cyfrannu at genhadaeth y sefydliad a'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, a bod egwyddorion a gweithdrefnau rheoli prosiect effeithiol yn cael eu dilyn;
- rheoli perfformiad uwch aelodau'r tîm yn uniongyrchol;
- datblygu a gweithredu cynllun gweithredol blynyddol sy'n ymgorffori nodau ac amcanion sy'n gweithio tuag at gyfeiriad strategol y busnes, a sicrhau bod gweithrediad y sefydliad yn bodloni disgwyliadau aelodau a phartneriaid Cynnal Cymru;
- rhoi cefnogaeth i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cadeirydd drwy baratoi agendâu cyfarfodydd a deunyddiau ategol, gan sicrhau bod y Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr agenda datblygu cynaliadwy sy'n datblygu a materion cysylltiedig, a nodi, asesu a rhoi gwybod i'r Bwrdd am faterion mewnol ac allanol sy'n effeithio ar y busnes;
- sicrhau bod Cynnal Cymru yn cydymffurfio â'r holl bolisïau a chanllawiau cyfreithiol wrth ddarparu gwasanaethau. Goruchwylio'r gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau i gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd a pharatoi gweithdrefnau i roi polisïau'r sefydliad ar waith;
- rheoli perthnasoedd â chleientiaid, noddwyr a rhanddeiliaid pwysig.

## Rheolaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol

- Gweithredu fel Swyddog Cyfrifyddu;
- gweithio gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ariannol yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol i gefnogi amgylchedd o reolaeth ariannol gadarn, gan gynnwys paratoi cyllidebau blynyddol;
- gweithio gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i sicrhau bod cyllidebau blynyddol a gweithdrefnau ar gyfer rheolaeth ariannol yn cael eu paratoi;
- sicrhau bod gweithdrefnau cadw cyfrifon a chyfrifyddu cadarn yn cael eu dilyn;
- gweinyddu cronfeydd y sefydliad yn unol â’r gyllideb gymeradwy a monitro’r llif arian misol;
- darparu adroddiadau cynhwysfawr a rheolaidd i’r Bwrdd ar refeniw a gwariant, gan sicrhau bod anfonebau a hawliadau grant yn cael eu cyflwyno’n brydlon ac o fewn y gyllideb;
- pennu gofynion staffio ac adnoddau ar gyfer y canlyniadau masnachol gorau posibl;
- goruchwylio'r gwaith o weithredu polisïau, gweithdrefnau ac arferion adnoddau dynol Cynnal Cymru, a sefydlu amgylchedd gwaith cadarnhaol, iach a diogel yn unol â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau priodol;
- gweithredu proses rheoli perfformiad ar gyfer yr holl staff sy’n cynnwys monitro perfformiad staff yn barhaus a chynnal adolygiad perfformiad blynyddol. Hyfforddi a mentora staff fel sy’n briodol i wella perfformiad.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

- Bod yn eiriolwr effeithiol dros Cynnal Cymru, gan gynrychioli ei fuddiannau ym mhob maes, cyfrannu at gynnal a gwella ei hygrededd a’i barch, gweithredu fel llefarydd allweddol ar gyfer gwaith yn y cyfryngau ac mewn digwyddiadau uchel eu proffil;
- adeiladu ar y cysylltiadau presennol a datblygu rhai newydd gydag amrywiaeth o sefydliadau sy’n cyd-fynd â’n gweithgareddau arfaethedig, yn ogystal â sicrhau bod ein rhaglenni’n parhau i gynhyrchu incwm;
- sefydlu a chynnal cysylltiadau gweithio da a threfniadau cydweithredol gyda busnesau, grwpiau cymunedol, cyllidwyr, gwleidyddion a rhanddeiliaid eraill i helpu i gyflawni nodau’r sefydliad, a rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddynt;
- helpu i hyrwyddo un brand, llais a hunaniaeth unigryw ar gyfer Cynnal Cymru a’i wasanaethau a’i gleientiaid yng Nghymru a chyflwyno negeseuon y sefydliad i ddylanwadwyr allweddol;
- sicrhau bod gweithgareddau’r sefydliad yn dilyn yr egwyddorion a’r arferion da o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn cynyddu ac yn datblygu aelodaeth fwy gweithredol.

## Manyleb y Person:

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Cymwysterau | | Wedi cymhwyso hyd at lefel gradd o leiaf neu â chymhwyster rheoli cyfatebol a/neu berthnasol |
| Gwybodaeth | Dealltwriaeth dda o ddatblygu cynaliadwy a'i statws mewn cyd-destunau byd-eang, cenedlaethol a lleol;<br>Dealltwriaeth ymarferol a gwerthfawrogiad o nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru, a bod gan Gymru gymeriad a diwylliant dwyieithog unigryw;<br>Profiad o gynhyrchu incwm a rheoli prosiectau mawr;<br>Dealltwriaeth o werth cyfathrebu digidol a chyfryngau rhwydweithio cymdeithasol. | Profiad o weithio mewn sefydliad newydd neu o ddechrau sefydliad newydd a'r holl agweddau diwylliannol masnachol sy'n gysylltiedig â hynny. |



| | | |
|---|---|---|
| Profiad | Profiad rheoli sylweddol a llwyddiannus diweddar ar lefel weithredol neu uwch;<br><br>Profiad o reoli a chydgrynhoi newid mewn sefydliad.<br><br>Profiad o gynhyrchu incwm, rheoli llifoedd arian masnachol ac anfasnachol, ac arwain sefydliad sy'n gynaliadwy yn ariannol<br><br>Profiad o weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu'n effeithiol â sefydliadau ac asiantaethau o bob sector o gymdeithas;<br><br>Profiad o weithio fel rheolwr effeithiol mewn timau deallus gydag ymdeimlad cryf o fanteision cydweithio; gan gynnwys ymrwymiad i reoli perfformiad gyda'r gallu i resymoli, a sefydlu targedau ac amcanion a sicrhau allbynnau a chanlyniadau; | Profiad rheoli sylweddol a llwyddiannus yn ddiweddar ar lefel weithredol neu uwch yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector; |



| | | |
|---|---|---|
| Sgiliau | Gallu addasu a bod yn hyblyg mewn amgylchedd gwaith sy'n newid, gan gynnal effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ar yr un pryd;<br><br>Sgiliau trefnu rhagorol gyda'r gallu i gymhwyso a datblygu dulliau llywodraethu sefydliadol;<br><br>Prawf o sgiliau mewn rheoli ariannol;<br><br>Gallu gweithio'n gydweithredol ac yn effeithiol gydag eraill yn y sefydliad er mwyn gweithio fel tîm, gosod nodau, datrys problemau, a gwneud penderfyniadau sy'n gwella effeithiolrwydd y sefydliad;<br><br>Gallu dylanwadu'n berswadiol ac ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth eang o gleientiaid a rhanddeiliaid allanol, a gallu cynrychioli amcanion a buddiannau'r sefydliad;<br><br>Gallu amlwg i gymryd y cam cyntaf a'r cyfrifoldeb dros gyflawni pethau;<br><br>Gallu gweithio o dan bwysau ac o fewn amserlenni tyn;<br><br>Agwedd greadigol tuag at ddatrys problemau. | Gallu cyfathrebu'n foddhaol drwy gyfrwng y Gymraeg, neu ddangos ymrwymiad i ddysgu Cymraeg; |
| Rhinweddau Personol (Amlwg) | Arddull arwain sy'n greadigol, yn entrepreneuraidd, yn hygyrch, yn weladwy ac yn hyblyg, sy'n ennyn ymddiriedaeth, parch a hyder gan eraill;<br><br>Agwedd gadarnhaol;<br><br>Llawn hunangymhelliant, hyblyg, gallu addasu ac yn ysgogi newid;<br><br>Gallu meithrin perthnasoedd a dod â phobl ynghyd;<br><br>Sgiliau rhyngbersonol cryf gyda'r gallu i rwydweithio'n effeithiol ac yn hyderus gyda ffigurau amlwg o wahanol sectorau a chefndiroedd (e.e. uwch wleidyddion, swyddogion y llywodraeth, academyddion, pobl fusnes flaenllaw, arweinwyr llywodraeth leol a chymunedol amrywiol); | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhannu a hyrwyddo ein gwerthoedd craidd: **cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**;<br><br>Dealltwriaeth o ymddygiad moesegol ac arferion busnes, gan sicrhau bod eu hymddygiad eu hunain ac ymddygiad pobl eraill yn cyd-fynd â’r safonau hyn ac yn cyd-fynd â gwerthoedd y sefydliad. | |
| Arall<br>(Rhowch fanylion) | | |

# Sut mae gwneud cais

Mae Eastside People yn helpu Cynnal Cymru i recriwtio ar gyfer y swydd hon. Cliciwch yma i wneud cais Paratoi eich CV a Llythyr Eglurhaol.

Bydd pob cais yn ddienw er mwyn sicrhau nad oes rhagfarnau isymwybodol ac nad oes anfantais i neb.

Atebwch bob un o'r meysydd canlynol yn eich llythyr eglurhaol na ddylai fod yn hirach na thair tudalen:

- Pa mor gyfarwydd ydych chi â chynaliadwyedd a’r rhesymau pam mae’r cyfle hwn yn berthnasol i chi
- Eich profiad strategol fel uwch arweinydd
- Eich profiad o arwain sefydliad drwy gyfnod sylweddol o atgyfnerthu ac ehangu – rhowch enghreifftiau o’r heriau a wyneboch a sut y gwnaethoch eu goresgyn
- Y dull rydych chi’n ei ffafrio ar gyfer gweithredu gweithgareddau cynhyrchu incwm i gefnogi twf a chynaliadwyedd y sefydliad
- Profiad/gwybodaeth mewn perthynas â’r sgiliau a’r profiad perthnasol arall a nodir yn y disgrifiad swydd a manyleb y person

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y broses ymgeisio hon, neu os oes angen eglurhad arnoch chi am unrhyw agwedd ar y swydd, cysylltwch â Demi Martyn yn gyntaf (demi@eastsidepeople.org).

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw hanner dydd, 3 Mai 2024, a bydd cyfweliadau llunio rhestr hir yn cael eu cynnal ystod yr wythnos sy’n dechrau ar xxxxxx. Bydd cyfweliadau ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer yn yr wythnos sy’n dechrau ar 17 Mai 2024. Bydd y broses ddethol yn cynnwys cyfweliad a chyflwyniad i’r panel Ymddiriedolwyr. Os byddwch chi’n llwyddiannus ar ôl y cam hwn, bydd cyfle i gwrdd â’r Uwch Dîm Arwain.

Rydym am i chi gael pob cyfle i ddangos eich sgiliau, eich gallu a'ch potensial; cysylltwch â ni os oes angen unrhyw gymorth neu addasiad arnoch er mwyn i ni allu helpu i wneud i'r broses ymgeisio weithio i chi.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad a bod hynny’n golygu eich bod yn gorfod talu am ofalwr, rhowch wybod i ni ac fe gewch ad-daliad gennym.

## Monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth recriwtio

Mae Cynnal Cymru eisiau cyflawni’r nodau a’r ymrwymiadau a nodir yn ei bolisi cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys peidio â gwahaniaethu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a chreu darlun cywir o gyfansoddiad y gweithlu wrth annog cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae angen eich help a’ch cydweithrediad ar y sefydliad i’w alluogi i wneud hyn, ond mater gwirfoddol yw llenwi’r ffurflen hon. Bydd yr holl wybodaeth a roddir yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn cael ei defnyddio at ddibenion monitro. Ni fydd yn cael ei rhannu â’r panel cyfweld nac asesu.

# Rhagor o wybodaeth

## Sut rydym yn gweithio

Rydym yn deall bod gan ein staff ymrwymiadau a blaenoriaethau y tu allan i'r gwaith, felly rydym yn hapus i archwilio unrhyw drefniant gweithio hyblyg a fydd yn eich galluogi i wneud eich gwaith gorau, ar yr amod bod modd diwallu anghenion busnes y sefydliad.

Rydym yn ceisio cyrraedd cronfa amrywiol o ymgeiswyr ac rydym yn barod i ystyried unrhyw addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen ar unrhyw ddarpar weithwyr i fod yn llwyddiannus.

Mae ein swyddfa yng nghanol Caerdydd ac mae'n hawdd ei chyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Rydym yn gweithredu model gweithio hybrid, ac mae ein staff yn gweithio yn y swyddfa a gartref.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Cynnal Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyfle cyfartal i gael gwaith yn ei holl raglenni a phenderfyniadau cyflogaeth. Rydym yn cydnabod bod mudiad amrywiol a chynhwysol yn hanfodol i ddatrys newid yn yr hinsawdd a heriau eraill yn ymwneud â chynaliadwyedd, a bod yn rhaid i ni sicrhau bod pawb yr effeithir arnynt yn uniongyrchol – yn enwedig y rheini sydd wedi cael eu heithrio yn y gorffennol – wrth galon y mudiad dros newid.

Rydym yn mynd ati i chwilio am hyfforddiant a chyngor sy'n gallu gwneud ein swyddi yn hygyrch i holl aelodau posibl y tîm, heb ystyried hil, lliw, tarddiad cenedlaethol, ethnigrwydd, oedran, anabledd, rhywedd a neilltuwyd, mynegiant rhywedd neu hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth, crefydd neu gred, statws cyn-filwr, a statws priodasol neu riant. Rydym yn ymdrechu i recriwtio aelodau tîm o gymunedau yr effeithir arnynt fwyaf gan newid yn yr hinsawdd neu y mae mathau eraill o anghyfiawnder amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn effeithio arnynt. Felly, rydym yn annog ceisiadau gan bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl LHDTC, ac aelodau o gymunedau sydd ar y cyrion, gan gynnwys y rheini sydd ag anabledd gweladwy neu gudd.

Os byddwch chi'n sylwi ar unrhyw beth yn y pecyn recriwtio hwn y gellir ei wella yn eich barn chi, rhowch wybod i ni. Ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yw Harry Thompson – harry@cynnalcymru.com

Rydym yn gwarantu y bydd unrhyw ymgeisydd o'r grwpiau uchod sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol yn cael cyfweliad ar gyfer y swydd.

## Cynaliadwyedd

Rydym yn disgwyl i chi gyflawni cyfrifoldebau eich swydd mewn ffordd gynaliadwy, gan sicrhau cyn lleied o niwed â phosibl i'r byd.  Ein nod yw sicrhau bod yr holl adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn foesegol.

## Polisi Iaith Gymraeg

Wrth wneud ein gwaith, rydym yn ceisio bod mor ddwyieithog â phosibl yn ein gweithrediadau o ddydd i ddydd ac rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal cyn belled ag y bo hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.